COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  05.10.2022

.

PRESENNOL – Llyr Jones (Cadeirydd) ,Gwyn Davies, Carwyn Edwards, Sioned Jones, Alun Jones, Glennydd Evans, Rhian Ellis (Clerc) Gwynfryn Jones.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd gyda Carwyn, Nanw a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli Nia a oedd yn aelod gweithgar iawn o'r gymuned.

1. YMDDIHEURIADAU –  Awel Hughes, Cyng. Gwennol Ellis

2. DATGAN BUDDIANNAU – Dim

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir gan Carwyn ac eilwyd gan Gwyn

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –  Awgrymu I Rhydian wisgo helmed pan yn torri gwair mynwent yr Eglwys.

Y Clerc I gael cyngor gan Gyngor Conwy a Cadw ynglyn a'r Eglwys a chael arwyddion.

Holi Mathew Tai Ucha I dorri coed yn y fynwent a hefyd wrth y safle bws – Llyr neu Carwyn i'w gyfarfod.

Cael pris gan Hob I beintio safleoedd bws yr ardal.

Cafwyd cyfarfod gyda Richard Griffiths ynglyn a'r coed yn Dinmael a mae Cyfoeth Naturion yn cynnig teneuo y coed bythol wyrdd a thocio a torri rhai I lawr. Sioned I gysylltu gyda Richard ynglyn a'r coed yn Ty Nant.

Aros I Ian ddod yn ol gyda pris I adnewyddu y wal.

5. CYLLIDEB  - Yn y Banc 29.09.22        £20,742.14

Gwariant hyd yma Nant Fach - £1316.95

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Carwyn  ac eilwyd gan Sioned a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Lelo Sgips 2020/21 | s137 | £1248.00 |
| 2. Unllais Cymru Aelodaeth | s137 | £    84.00 |

7. NEUADD FACH -  .Carwyn wedi cael trefn ar y bil trydan a mae wedi dod lawr I £12 y mis.

8.CAEAU CHWARAE -  Dywedodd y Clerc bod grant ar gael I wario a cytunwyd fynd am 2 fainc a 2 fwrdd picnic – 1 set yn Llangwm ag un yn Dinmael. Penderfynwyd gofyn I Dewi Jones am bris gosod.

9.  CYNLLUNIO  – Sied Hendre Garthmeilo. – Dim gwrthwynebiad ond mae'r Cynghorwyr yn annog unrhwy un sydd am rhoi cais cynllunio I fewn I'r cyngor yn gwneud hynny cyn eu bod wedi adeiladu.

10. GOHEBIAETH – DIM

.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Coeden Nadolig - Gofyn I Rhys Jones I gael chwaneg o oleuadau I'r goeden Nadolig eleni gyda'r tal yn dod allan o gronfa Nant Fach.

Gofyn I Richard Griffiths am goeden eto eleni.

Mi fydd y goeden yn mynd fynny erbyn y 1af Rhagfyr.

2. Cwt Hers – Gofyn am bris gan Dafydd Roberts I gael drws newydd I'r cwt hers.

3. Tanc a Car wedi ei adael wrth Tai Mawr – Cysylltu gyda'r cyngor I roi cwyn eto.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

TACHWEDD 23ain 2022